# Galwad Agored am Artistiaid Anabl: Arddangosfa Genedlaethol Celfyddydau Anabledd Cymru (2025-26)

🕒 **Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau: 12pm, 22 Hydref 2025**

Mae **Celfyddydau Anabledd Cymru** yn gwahodd ceisiadau gan artistiaid anabl, b/Byddar a niwrowahanol o bob cwr o Gymru ar gyfer ein harddangosfa deithiol genedlaethol sydd ar y gweill: ***Effaith***

Bydd y prosiect uchelgeisiol hwn yn arddangos celf weledol bwerus ac arloesol gan artistiaid anabl mewn pum lleoliad celfyddydol blaenllaw ledled Cymru, rhwng **mis Chwefror 2026 a mis Mawrth 2027**.

### Yr Arddangosfa

Bydd *Effaith* yn archwilio themâu **natur, tirwedd a chyfiawnder hinsawdd** o safbwynt anabledd. Mae'r arddangosfa'n cynnig cyfle i gynulleidfaoedd ledled Cymru gael gweld safbwyntiau pobl anabl ar un o faterion mwyaf brys ein hoes.

Rydym yn chwilio am waith ar unrhyw ffurf ar gelfyddyd weledol, gan gynnwys (ond nid y rhain yn unig):
**paentiad, lluniad, cerflun, delwedd symudol, ffotograffiaeth, cyfryngau cymysg, sain, digidol a gosodwaith.**

### Lleoliadau’r Arddangosfa Deithiol

Bydd yr arddangosfa'n teithio i’r lleoliadau canlynol:

- **Galeri**, Caernarfon
- **Tŷ Pawb**, Wrecsam
- **g39**, Caerdydd
- **Glan yr Afon**, Casnewydd
- **Canolfan y Celfyddydau**, Aberystwyth

Cynhelir gweithdai cyhoeddus o dan arweiniad yr artistiaid sy’n arddangos ym mhob lleoliad hefyd

**Pwy all ymgeisio**

Rydym yn croesawu ceisiadau gan:

- Artistiaid anabl, b/Byddar a/neu niwrowahanol yng Nghymru
- Artistiaid anabl, b/Byddar a/neu niwrowahanol o fannau eraill yn y DU sydd â chysylltiad cryf â Chymru
- Artistiaid unigol, cyfunol neu grwpiau cydweithredol

Rydym yn annog ceisiadau'n arbennig gan y rheini sy'n wynebu nifer o rwystrau rhag cymryd rhan, gan gynnwys artistiaid o gymunedau sy'n cael eu diffinio ar sail hil, artistiaid LHDTCRhA+, a'r rheini sydd â haenau o hunaniaeth sy'n plethu drwy'i gilydd.

**Rhaid i chi fod yn aelod o Gelfyddydau Anabledd Cymru i wneud cais.**
Mae aelodaeth yn rhad ac **am ddim** i bob person sy'n ystyried ei hun yn anabl, yn f/Fyddar neu'n niwrowahanol yng Nghymru.
Ymunwch â Chelfyddydau Anabledd Cymru yma → **Aelodaeth| Celfyddydau Anabledd Cymru**

---

**Am beth rydym yn chwilio**

Mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- Gwaith sy'n barod i'w arddangos (wedi'i fframio neu ei fformatio i'w arddangos yn gyhoeddus)
- Gwaith sy'n ymateb i thema Effaith - natur neu anabledd a chyfiawnder hinsawdd
- Gwaith y gellir ei gludo a'i arddangos yn ddiogel ar draws nifer o leoliadau

---

**Cymorth i Artistiaid a Ddewisir**

Bydd y canlynol yn berthnasol i'r artistiaid a ddewisir ar gyfer yr arddangosfa:

- Mentora a chefnogaeth guradurol
- Telir costau cludo a gosod yn llawn
- Cymorth mynediad (rhowch amlinelliad o'ch gofynion yn eich cais)
- Cyhoeddusrwydd, dogfennu a hyrwyddo eich gwaith

---

**Sut i gyflwyno**

Cyflwynwch eich cais drwy **https://dacymru.fillout.com/2025exhibition** erbyn **12 hanner dydd ar 22 Hydref 2025**.

Rydym yn derbyn ceisiadau ysgrifenedig, sain neu fideo.

Dylai eich cais gynnwys:

- Datganiad byr am yr artist (dim mwy na 200 gair)
- Hyd at 3 delwedd neu ffeil cyfryngau o'r gwaith yr hoffech ei arddangos
- Dogfen gofynion mynediad neu amlinelliad byr o unrhyw ofynion mynediad
- Eich manylion cyswllt ac unrhyw ddolenni perthnasol (gwefan, cyfryngau cymdeithasol)

Os oes angen i chi wneud cais mewn ffordd arall, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at **post@disabilityarts.cymru**

---

**Panel Dethol**

Bydd y gwaith celf yn cael ei ddewis gan:

- **Dr Kate Brehme**, curadur celfyddydau anabledd rhyngwladol (Berlinklusion)
- **Bethany Handley**, awdur ac ymgyrchydd dros gyfiawnder hinsawdd anabledd
- **Arty Jen-Jo**, artist a chyn enillydd Gwobr Gelf Celfyddydau Anabledd Cymru

---

**Amserlen**

- **Dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno cais:** 22 Hydref 2025
- **Rhoi gwybod i'r artistiaid:** Tachwedd 2025
- **Lansio'r arddangosfa:** Chwefror 2026
- **Cau'r arddangosfa:** Mawrth 2027

---

**Comisiynau**

Bydd dau ddarn o waith ychwanegol a gomisiynwyd - gyda chefnogaeth **Amgueddfa Cymru** a **Chorsydd Calon Môn** - hefyd yn cael eu cynnwys yn yr arddangosfa.

I wneud cais am y cyfleoedd hyn, tarwch olwg ar yr hysbysebion isod:

- Comisiwn mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru
- Comisiwn mewn partneriaeth â Chorsydd Calon Môn

Diolch o galon i Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Chorsydd Calon Môn.